

Pwyllgor Cyfle Cyfartal**COFNODION****Dyddiad:** 11 Gorffennaf 2000**Amser:** 11.00 am**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 2, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol**Yn
bresennol:** **Aelodau**

Edwina Hart (Cadeirydd)

Gyr

Lorraine Barrett

De Caerdydd a Phenarth

Christine Chapman

Cwm Cynon

Richard Edwards

Preseli Sir Benfro

Alison Halford

Delyn

Gareth Jones

Conwy

Helen Mary Jones

Llanelli

David Melding

Canol De Cymru

Ymgynghorwyr i'r Pwyllgor

Kate Bennett

Comisiwn Cyfle Cyfartal

Mashuq Ally

Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol

William Bee

Comisiwn Hawliau Anabledd

Swyddogion

Charles Willie

Uned Polisi Cydraddoldeb

Andrew George

Clerc

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Janet Ryder a Kirsty Williams.

Eitem 1 ar yr Agenda: Adroddiad y Cadeirydd

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb oedd yn bresennol i gyfarfod olaf y flwyddyn hon yn y Cynulliad a oedd wedi bod yn un gyffrous i'r Pwyllgor. Byddai'r Clerciaid yn rhoi agendâu drafft at ei gilydd ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor yn yr hydref a byddent yn ymchwilio i'r posibilrwydd o gynnal cyfarfod ychwanegol yn ystod tymor cynadleddau'r pleidiau.

1.2 Nododd y Cadeirydd fod Comisiynydd y DU dros Benodiadau Cyhoeddus, y Fonesig Rennie Fritchie yn bwriadu cynnal wythnos penodiadau cyhoeddus ym mis Tachwedd. Nod yr wythnos hon fyddai newid amgyffrediad pobl o benodiadau cyhoeddus ac annog pobl na fyddent fel arfer yn ystyried cymryd rhan i wneud cais. Cytunodd yr aelodau y byddai'n briodol gwahodd y Fonesig Rennie i gwrdd â gweithgor penodiadau cyhoeddus yn yr hydref er mwyn trafod ei chynigion yn llawnach.

Eitem 2 ar yr Agenda: Ymchwiliad Stephen Lawrence

2.1 Mynegodd y Cadeirydd ei llawenydd gyda'r ffaith bod Roger Mackenzie o Undeb Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol yn bresennol yn y cyfarfod yn dilyn ei secondiad i'r Cynulliad Cenedlaethol. Byddai ei wybodaeth a'i brofiad yn amhrisiadwy wrth helpu'r Cynulliad i ddelio ag argymhellion Ymchwiliad Stephen Lawrence. Ymatebodd Roger Mackenzie gan ddweud bod ei undeb yn hapus ac yn falch iawn i fod wrthi'n datblygu cydberthynas ffurfiol â'r Cynulliad. Roedd gosod mesurau i wrthsefyll hiliaeth yn broses hir ac ni fyddai atebion cyflym. Rhoddodd y Cadeirydd wahoddiad iddo fynychu cyfarfodydd grp llywio Ymchwiliad Stephen Lawrence ac i gymryd rhan mewn cyfarfodydd y Pwyllgor pan fo'n bosibl.

2.2 Bu cyfarfod gweithgor y swyddogion ar 26 Mehefin a bu cyfarfod y grp llywio ar 5 Gorffennaf. Nododd yr aelodau fod yn dda ganddynt weld bod cynnydd yn cael ei wneud erbyn hyn. Roeddent yn awyddus i'r staff oedd yn ymgymryd â'r gwaith hwn gael yr hyfforddiant a'r cymorth oedd ei angen arnynt ac ailbwysleisiwyd parodrwydd y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol i roi hyfforddiant a chyngor.

2.3 Awgrymodd yr aelodau y byddai'n briodol o bosibl amlygu cyfrifoldeb statudol y Cynulliad dros gydraddoldeb yn y Ganolfan Addysg newydd oedd wrthi'n cael ei datblygu yn Adeilad Pierhead. Cynigiodd y Cadeirydd ysgrifennu at y Dirprwy Lywydd a oedd yn arwain y Ganolfan er mwyn trosglwyddo awgrymiadau'r aelodau iddo.

Eitem 3 ar yr Agenda: Strategaeth Adnoddau Dynol NHS Cymru

3.1 Croesawodd y Cadeirydd Hilary Neale o Is-adran Adnoddau Dynol NHS y Cynulliad a Neil

Wooding, Ymgynghorydd Cydraddoldeb, NHS Cymru, i drafod strategaeth adnoddau dynol yr NHS, 'Cyflwyno i Gleifion'.

3.2 Dywedodd Hilary Neagle i'r strategaeth gael ei lansio gan Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y Cynulliad ar 23 Mehefin a'i bod yn adlewyrchu hinsawdd o weithio mewn partneriaeth. Roedd Cymru wedi mynd ei ffordd ei hun yn hytrach na dilyn Lloegr gan ei bod yn bwysig cael strategaeth oedd yn bodloni anghenion penodol Cymru. Roedd ffordd bell i fynd gan yr NHS yng Nghymru ond nid oedd yn dechrau o sail sero. Sefydlwyd Uned Cydraddoldeb yr NHS ym 1994 ac roedd wedi datblygu enw da yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Roedd yr Uned wedi arloesi strategaeth cydraddoldeb cenedl lwyddiannus ar y cyd â Chyfle 2000 a Chwarae Teg fel rhan o'r ymagwedd prif ffrwd tuag at ddatblygu cydraddoldeb o fewn NHS Cymru. Roedd NHS Cymru wedi ennill gwobr Cyfle 2000 Aur am ei waith ar faterion merched ym 1999. Penodwyd dau ymgynghorydd cydraddoldeb ar faterion hil ac iechyd yn ddiweddar.

3.3 Symudodd ymlaen i egluro tair rhan y strategaeth a nodir yn *Cyflenwi i Gleifion*, yr oedd copïau ohono wedi'u hanfon at yr aelodau. Byddai'n bosibl nodi a oedd adrannau penodol o'r ddogfen yn effeithiol drwy fonitro'r camau a gymerwyd o ganlyniad iddo. Byddai 'Agenda ar gyfer Newid' (moderneiddio cyflog ac amodau gwasanaeth yn yr NHS) yn delio â materion yn ymwneud â chyflog cyfartal am waith o werth gyfartal a byddai'n galluogi ac annog arolwg o'r arferion cyflogaeth, gweithio a phroffesiynol sydd wedi esblygu ers creu'r NHS. Byddai datblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y staff o gydraddoldeb yn cael sgîl-effaith ar gleifion oherwydd y byddai dealltwriaeth well o anghenion lleiafrifoedd ethnig a grwpiau eraill. Byddai'n nodi i ba raddau yr oedd angen staff oedd yn siarad Cymraeg o fewn yr Ymddiriedolaethau fel y gallai trefniadau hyfforddi rhag-gofrestru ystyried hyn. Dywedodd Neil Wooding fod gweithdrefnau gwahanol iawn o ran cydraddoldeb yn cael eu gweithredu gan ymddiriedolaethau NHS unigol. Ar hyn o bryd, yn achos nifer o sefydliadau, nid oedd fawr o ddisgwyl y byddai egwyddorion cydraddoldeb yn cael eu dilyn drwy'r sefydliad cyfan, er bod gan bob un ohonynt bolisi cydraddoldeb yn eu lle.

3.4 Yn Lloegr bwriadwyd dechrau gweithredu'r graddfeydd cyflog, termau ac amodau cyflogaeth a'r gwerthusiad swydd newydd yn gynnar, gan ddechrau mewn rhai Ymddiriedolaethau ym mis Ebrill 2000. Byddai'r rhaglenni'n cael eu cyflwyno dros bedair blynedd. Yng Nghymru, penderfynwyd aros am flwyddyn er mwyn dysgu o brofiad Lloegr ac wedyn symud yn gyflym i weithredu'r mentrau, ar ôl nodi unrhyw beryglon. Mewn ymateb i gwestiwn yn gofyn a oedd yr arian a ddefnyddiwyd yn y mentrau hyn yn dod â gofynion ychwanegol ar y gyllideb, dywedodd Hilary Neagle bod arian ar gyfer 'Agenda ar gyfer Newid' wedi'i gynnwys yn yr arian newydd a gyhoeddwyd yn ddiweddar.

3.5 Cododd yr aelodau y materion canlynol yn ystod y drafodaeth:

- nododd y ddogfen y bwriad strategol o fynd i'r afael â chydraddoldeb yn yr NHS ond y ffactor holl bwysig oedd sut y cafodd newidiadau eu gweithredu a'u mesur;
- teimlai meddygon teulu rhan amser yn aml iawn fod eu dyrchafiad proffesiynol yn cael ei lesteirio, yn enwedig os oeddent yn gweithio fel contractwyr. Cafodd cynllun cadw (gyda'r nod o

alluogi pobl broffesiynol i gynnal eu lefel ymarfer glinigol) ei ymestyn yn ddiweddar ac roedd yn helpu i gynyddu nifer y meddygon teulu oedd yn dychwelyd i waith llawn amser;

- cyfeiriodd y strategaeth at y cyfrannau uchel o bobl broffesiynol â llawer o gymwysterau oedd yn gweithio yn yr NHS. Mae niferoedd mawr o weithwyr cynorthwyol hefyd, y mae llawer ohonynt yn debygol o ddod o gymunedau lleiafrifoedd ethnig, ac y mae cydraddoldeb yn gymwys iddynt hwy hefyd. Cynhelir Archwiliad Cydraddoldeb o bob ymddiriedolaeth yr NHS a phob awdurdod iechyd yng Nghymru tua diwedd y flwyddyn hon a bydd hyn yn helpu i ganfod niferoedd y staff sy'n dod o grwpiau gwahanol, gan gynnwys staff anabl, nad ydynt bellach wedi'u cofrestru'n ffurfiol fel pobl anabl. Gwyddys bod llawer mwy o fenywod na dynion yn cyflawni rolau rhan amser â statws is a bod 1.8% o'r staff ar draws yr NHS yng Nghymru yn staff o leiafrifoedd ethnig a staff du, y mae 65% ohonynt yn gweithio mewn rolau clinigol gyda'r gweddill yn cyflawni rolau rhag-gofrestru di-grefft. Roedd systemau monitro wrthi'n cael eu datblygu er lles y staff i gyd;
- roedd diffyg cydraddoldeb o fewn practis yn cael effaith ar gleifion. Er enghraifft, profwyd bod y nifer fechan o feddygon teulu oedd yn ferched yn cael effaith ar nifer y merched yn eu harddegau sy'n beichiogi. Y ffordd o fynd i'r afael â chydraddoldeb mewn meddygfeydd, sydd yn fusnesau bach mewn gwirionedd, oedd i bwysleisio'r achos rhesymegol dros gynyddu amrywiaeth y gweithlu a gwella rheolaeth;
- cwestiynwyd yr angen i gynnal mentrau ar ffurf peilot pan brofwyd eisoes bod angen practisiau teg. Gellid dwyn y Cynulliad gerbron arolwg barnwrol os na chaent eu gweithredu. Dylid ystyried cosbi'r rheini nad oeddent yn cymryd y camau angenrheidiol. Dywedodd Neil Wooding fod systemau wrthi'n cael eu sefydlu er mwyn sicrhau y gellid monitro cynnydd yn erbyn yr amcanion. Byddai'r cytundeb perfformiad/atebolrwydd a sefydlwyd rhwng y Cynulliad a phob awdurdod iechyd yn mesur cynnydd;
- dylai pob aelod o'r staff fod yn ymwybodol o'r gweithdrefnau cwyno. Roedd pedwar neu bum achos tribiwnlys cyflogaeth yn mynd ymlaen ar hyn o bryd. Roedd yr Uned Cydraddoldeb yn gweithredu fel gwasanaeth cyflafareddu ynghyd â gwasanaeth ymgynghorol ar gyfer rheolwyr a staff. Roedd gweithdrefnau disgyblu ar gyfer meddygon a staff clinigol wrthi'n cael eu rhesymoli ac roedd arolwg DU gyfan wrthi'n cael ei gynnal o faterion yn ymwneud â chontractau ymgynghorwyr;
- roedd y gydberthynas rhwng y gwasanaeth iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol yn bwysig wrth 'drosglwyddo' cleifion, yn enwedig cleifion o leiafrifoedd ethnig neu gleifion sy'n siarad Cymraeg;
- roedd trefniadau gwerthuso swydd yn allweddol o ran lledaenu arfer gorau, yn enwedig mewn perthynas â phroffesiynau sy'n gysylltiedig â meddygaeth. Profwyd y cynllun newydd ar draws ystod eang o ymddiriedolaethau a swyddi ac mae bellach wrthi'n cael ei feincnodi. Cafodd meini prawf eu datblygu, eu trafod a'u cytuno â'r staff. Ymgynghorwyd â'r sefydliadau cydraddoldeb hefyd.

3.6 Pwysleisiodd Kate Bennett bod yr NHS yn gyflogwr allweddol yng Nghymru, yn enwedig mewn rhai ardaloedd gwledig. Gallai Ymddiriedolaeth danseilio rhwymedigaeth statudol y Cynulliad i roi ystyriaeth briodol i gydraddoldeb drwy benderfynu mynd ei ffordd ei hun. Er mai merched oedd 90% o'r nyrsys, dynion oedd yn gwneud 90% o'r swyddi nyrsio uwch. Felly, roedd yn iawn y dylai Cymru gael

rôl broactif yn nhrefodaethau'r DU ynghylch cyflog cyfartal. Dywedodd Hilary Neagle fod gan Gyfarwyddiaeth yr NHS gydberthnasau gwaith agosach â chyrff iechyd nag erioed o'r blaen ac y byddai monitro ffurfiol yn helpu i nodi materion o bryder. Roedd NHS Cymru wedi chwarae rhan allweddol yn nhrefodaethau cyflog y DU.

3.7 Cwestiynodd Mashuq Ally y cyfeiriadau at 'ddiwylliant' a 'hil' yn yr adroddiad na ddylid eu defnyddio fel geiriau cydgyfnewidiol. Nododd hefyd y gallai 'tegwch' olygu pethau gwahanol i wahanol bobl. Cymeradwyodd benodiad y ddau ymgynghorydd hil ac iechyd. Cydnabu Neil Wooding amwysedd posibl y gair 'tegwch' ond awgrymodd fod y strategaeth yn ymwneud yn fwy â materion ehangach triniaeth gyfartal gan gynnwys hawliau dynol. Byddai'r ymgynghorwyr hil yn gweithio'n agos â sefydliadau du a lleiafrifoedd ethnig er mwyn datblygu ymwybyddiaeth o sut i gyflwyno'r hyn oedd ei angen.

3.8 Gwnaeth Will Bee sylw ar y mater o gadw staff a'r angen i'r rheini ag anabledd ddatgelu eu cyflwr. Roedd yn pryderu ynglŷn â'r neges yr oedd yr NHS yn ei hanfon at bobl ag anabledd pan oedd cyn lleied o'i staff ei hunan yn anabl. Dywedodd Neil Wooding na chasglwyd gwybodaeth yn ystod cyflogaeth, er y gofynnwyd i ymgeiswyr nodi unrhyw anabledd ar eu ffurflenni cais. Roedd yr Uned Cydraddoldeb yn edrych ar ffyrdd o ddelio â hyn. Mae ymchwil wrthi'n cael ei chynnal o fewn yr NHS er mwyn cyflwyno arweiniad ar yr arfer orau a'r ffordd y mae'r NHS yn cyflwyno'i wasanaethau i bobl anabl. Byddai hyn yn cael ei gwblhau yn fuan a byddai'n rhoi copi o'r adroddiad i'r Pwyllgor.

3.9 Diolchodd y Cadeirydd i'r siaradwyr am eu cyfraniadau. Roedd cysylltiadau amlwg rhwng iechyd a gwasanaethau cymdeithasol a chynigiodd ysgrifennu at Ysgrifennydd Iechyd y Cynulliad i godi'r materion a gwmpaswyd yn y drafodaeth yn enwedig mewn perthynas â chytundebau perfformiad. Gofynnodd i'r Uned gadw'r Pwyllgor yn hysbys o'r archwiliad, y cynnydd a wneir yn y cynlluniau peilot Saesneg ac ymagwedd NHS Cymru ei hunan.

Eitem 4 ar yr Agenda: Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Papur: EOC-05-00(min)

4.1 Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol.

4.2 Nododd y Cadeirydd ei bod wedi derbyn llythyr oddi wrth Kate Bennett ynglŷn â'r gynrychiolaeth o ferched ym myd gwleidyddol Cymru. Tynnodd y llythyr sylw yn arbennig at drafodaethau yn y Pwyllgor Monitro Cysgodol Amcan Un ynglŷn â pha mor ddymunol oedd cael cydbwysedd cenedl yn y partneriaethau rhanbarthol a lleol. 25% o'r aelodau yn unig oedd merched yn y partneriaethau cysgodol ar gyfartaledd ac ychydig iawn o aelodau du neu aelodau anabl oedd ganddynt. Cytunodd y Pwyllgor ei bod yn hanfodol unioni hyn ar unwaith. Byddai barn gan y Comisiwn Ewropeaidd ar y lefel o gynrychiolaeth hefyd. Cytunwyd y dylai'r Cadeirydd ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Datblygu Economaidd ynglŷn â'r mater.

4.3 Gorffennodd y cyfarfod am 12.20pm.